LG 35.5.91

# MARWNAD

## MRS. *CATHARINE JONES*,

Gwraig Mr. WILLIAM JONES, o Blwyf *Trefddyn*, yn Sir *Fynwe*; yr hon a ymadawodd â'r Byd y 10fed Dydd o *Fawrth*, yn y Flwyddyn 1789, ac a gladdwyd yn Eglwys *Trefddyn*, yn y 60fed Flwyddyn o'i Hoed.

---

HON OEDD WRAIG GALL, WEDDAIDD, DAWEL,
ELUSENGAR, A PHARCHEDIG,
GAN BAWB A'I HADWAENAI:
OND UCHLAW POB PETH HYNOD YNDDI
OEDD EI DUWIOLDEB;
YN YR HON, O RAN GOLEU CLIR,
ATHRAWIAETH LOYW,
BYWYD MANOL, SANCTAIDD,
ZEL TROS RYM DUWIOLDEB,
YN ENWEDIG FFYDD YN A CHARIAD AT YR
ARGLWYDD IESU,
YR OEDD YN ABL I'W CHYDMARU
A'R GWRAGEDD PENNAF YNG NGHYMRU.

---

GAN

WILLIAM WILLIAMS.

---

CAERFYRDDIN,
ARGRAPHWYD GAN I. DANIEL, YN HEOL-Y-BRENIN,
M, DCC, LXXXIX.

Lle yr argrephir pob Math o Gopiau am Bris rhesymol, ac y ceir ar werth ym Mis Tachwedd nesaf, ALMANAC Cymraeg, am y Flwyddyn 1790, gan J. HARRIS, Dysgawdwr Rhifyddiaeth yng Ngydwely.

LH 5516

X205 310744

# MARWNAD, &c.

1 MAE amſerau dyn yn dirwyn,
Dydd at ddydd yn d'od i ben,
At bwyntiedig awr a drefnwyd,
Gan Greawdwr dae'r a nen:
Ni's byrheir e', ni eſtynir,
Y mae'r funud fach a'r awr
Mewn rhyw 'ſgrifen ddigyfnewid,
Ar ddalennau'r arfaeth fawr.

2 *William Jones* y'ch yn ymddifad,
Buoch ddau—'does heddyw ond un;
Can's fe 'ſgarodd angeu diriaid,
Hen briodas gynnes, gun:
*Cate* ddihangodd tros yr aber,
Ac a landiodd ar y tir
Perffaith lawn, ddymunol, hyfryd,
Pwrcas-gwaed ei Phrynwr pur.

3 Daeth y dyddiau hir i fynu,
I roi terfyn ar ei hoed,
Dydd heb ofn iddi o hono,
Ond llawenydd wel'd e'n d'od;
Dydd i orphen anial yrfa,
Dydd wneud diben ar bob gwae,
Dydd ei gwynfydedig alwad,
I lawenydd ſy'n parhau.

4 Fe eſtynwyd dyddiau'n Harglwydd,
Ni fydd terfyn ar ei oes,
Tra fo rhai 'run ddelw hyfryd
Ag e' ei hun ym myd y groes:
Yr oedd *Cate* yn 'meſtyn atti,
Yn ymdrechu am wiſgo'i lun,
Ym mhob dawn, a gras, a thymmer,
Ag a wiſg amherffaith ddyn.

5 Gwelwch wraig wedi gwneud aberth
Lawn o'i deunaw oed ymlaen,
Hyd at drugain mlwydd a deuddeg,
I was'naethu ei Phrynwr glân:
Credu, caru, ymddifyrru,
Yn y iachawdwriaeth lawn,
Oedd gorchwylion penna' *Cath'rine*,
O foreu-ddydd hyd brydnhawn.

6 Hi ga'dd arg'oeddiadau dyfnion,
Tan athrawon aeth i maes,
*Harries*, *Whitefield*, *Rowlands*, eraill,
Bloeddwyr udgyrn dwyfol ras:
Hi fu ar ochr mynydd *Sinah*,
Yn y mellt a'r dychryn mawr,
Pan oedd mwg, a tharth, a thymmest',
Yn tywyllu'r oleu wawr.

7 Hi ga'dd, 'nol y dymmest' greulon,
A dychryndod *Sinah* fryn,
Brofi blas telynau *Sion*,
I bereiddio'r ofnau hyn:
Llanwyd hi o'r llawenydd hyfryd,
Ag na adnabu'r byd o'i ryw,
Yfed o'r cwppanau llawnion
Sydd ym mhresennoldeb Duw.

8 Yno ffodd ei holl amheuon,
A'i holl ofnau, er eu grym,
Megis niwlen wag, ddisylwedd,
O flaen awel denau, lym;
Ne's daeth pur ganiadau *Sion*,
Sydd yn cario eu dwyfol rin,
I bur lonni ei hysprydoedd,
Fel y llonna'r melus win.

9 Hymnau mwy ei chân gyffredin,
A'i difyrrwch ddydd a nos,
Hymnau am ddioddefaint Iesu,
Hymnau dwyfol waed y groes:

Mor gyfarwydd yw hi ynddynt,
  Mae'n eu 'nabod hwy a'u ſain;
Ac yn ddiſtaw, neu yn gyhoedd,
  Mae o hyd yn canu rhai'n.

10 Mae Marwnadau'r rhai ddihangodd,
  Tros y tonnau i'r nefol dir,
Yn ei helpu i dreulio'i hamſer,
  Mewn difyrrwch tawel, pur:
Cyn ei myned trwy'r Iorddonen,
  'Roedd hi'n gwledda gyd â hwy,
Ag ſy heddyw o fewn y bywyd
  Yn ymborthi ar ddwyfol glwy'.

11 'Roedd hi'n llawen, 'roedd hi'n hyfryd,
  A diddanus iawn ei chân,
Feddwl am y gweinidogion
  Ag oedd wedi myn'd o'r blaen;
Y rhai roddodd iddi fanna,
  Dyfroedd gloyw, dwyfol, clir,
Yr un ymborth pur, digymmyſg,
  Ag ſydd yn y nefol dir.

12 Fe ro'dd Nefoedd iddi ſantais,
  At bereiddio ei nefol fryd,
Tynnu ymaith ei golygon,
  Ddyddiau hir cyn myn'd o'r byd;
Fel b'ai holl deganau'r ddaear
  Iddi'n oerllyd a diflas,
A gofalon gwag, diſylwedd,
  Idd' i'w taflu'n lân i maes.

13 Llygaid cnawd wedi diflannu,
  Llygaid enaid ddaeth yn glir,
Fe bellhaodd dae'r oddi wrthi,
  A neſaodd nefol dir;
Fe ddaeth peraroglau'r maeſydd
  Hyfryd ſydd yr ochr draw,
Nes-nes beunydd, ne's o'r diwedd
  Cael eu profi maes o law.

14 O na chawn i deimlo'r grasau,
A'r tymherau nesol, rhad,
Ag a brofodd *Cate*, cyn symmud
O dir gwae i'r hyfryd wlad!
O na feddwn ar lawn sicrwydd,
Diamheuol, cadarn, cry',
Ag oedd yn gartrefu'n wastad
Yn ei mynwes gynnes hi!

15 Mae ei chnawd hi wedi darfod,
Bwyd i'r pryfed mân ni fedd,
Nid oes braidd ond croen ac esgyrn
Ganddi i osod yn y bedd:
Darfu tegwch corph yn hollol,
Enaid nefol sy yma gyd,
A griddfannau dyfnion, melus,
Am feddiannu'r dwyfol fyd.

16 Daccw hi'n eistedd yn ei chadair
Wellt, o flaen y danllwyth dân,
Ac yn canu Hymnau'n beraidd,
Am y iachawdwriaeth lân:
Y mae'n cofio'r ysgrythurau,
Sydd am Iesu a'i farwol glwy',
Ac ag allwedd nefol brofiad,
Mae'n eu hyfryd ddadglo hwy.

17 Mae'n adnabod athrawiaethau
Goleu, clir, y dwyfol ras,
Mae'n archwaethu, mae yn profi,
Ac arogli ei nefol flas;
Mae yn yfed, mae yn drachdio,
O'r ffynhonnau gloyw, pur,
Ag sy'n tarddu maes yn gysson,
O fynyddau'r dwyfol dir.

18 Mae'n cymmeryd llyfrau *Moses*,
A'r cysgodau maith o'u bron,
A'u cymhwyso mae yn gysson,
At y iachawdwriaeth hon:

Mae'n dehongli mannau tywyll,
  Ag fu iddi gynt yn hir,
Ac fel yfodd yn y diwedd
  O honynt ddyfroedd gloyw, pur.

19 'Roedd hi'n deall athrawiaethau
  Ammod hedd yn oleu iawn,
Ac yn gwybod pwy bregethai
  Wirioneddau 'fengyl lawn:
Caru'r gweinidogion hynny
  Oedd yn llawn o'r nefol dân,
Ac yn rhoi yng wraidd yr adeil
  Iesu Grist yn gonglfaen.

20 Dyma'r hen athrawiaeth loyw,
  Ag a burwyd gynt trwy dân,
Oedd yr unig hyfryd foddion,
  Dynnai yspryd *Cate* ymlaen:
Yspryd dwys yr hen ferthyron,
  Aeth trwy fflammiau fynu fry,
Oedd ei hunig bur ddifyrrwch,
  Dyna'r *tast* oedd ganddi hi.

21 Pan b'ai rhai'n pregethu pyngciau
  Mân, fel yr enwaediad gynt,
A'u dyrchafu'n uchel, uchel,
  Megis baner yn y gwynt:
Hi ffieiddiai'r fath athrawiaeth,
  Fel o Phariseaidd ryw,
Rhoddi degwm mint ac anis
  Mân yn lle cyfiawnder Duw.

22 *Paul* i fi, *Apolos* finneu,
  Eraill *Cephas* aeth â mryd,
Hyn nid oedd gan *Gate* ond ynfyd,
  Iesu ei hunan, Iesu gyd!
Dyma'r drefn a'r ddisgybliaeth,
  Medd rhyw figot poethlyd byw;
Nage'r man mae *Cate* yn ddewis,
  Lle bo presennoldeb Duw.

23 O briodas hawddgar, hyfryd,
*Cate* a *William* rowd ynghyd,
Mewn rhyw gwlwm wedi ei drefnu,
Yn yr arfaeth cyn bod byd!
Ni fu priod-fab mwy tyner,
Ni fu priod-ferch fwy mwyn,
Fel y darfu i iau priodas
Gael yn esmwyth iawn ei dwyn.

24 Hi gai'r ffordd a fyddai'n chwennych
Roi o'i meddiant yn ei hoes;
Felly *William*, fel y mynnai,
Heb un gair na chweddel croes;
I maes, i mewn, o'r hale i'r parlwr,
Ac o'r bwrdd i'r gwely clyd,
Nid oedd *Glannant-dû* ond heddwch
A chareiddwch trwyddo gyd.

25 Hi ro'dd fenthyg ei meddiannau
I Iachawdwr mawr y byd,
Ac mae heddyw'n cludo rhenti
Yn fyrddiynau maith ynghyd;
Arian daear gynt gyfrannodd,
Ond mae'n derbyn arian nef,
Cariad a llawenydd perffaith,
Yn ei gwmp'ni dwyfol ef.

26 Rhaid i'w chorph ym mynwent *Trefddyn*,
Orwedd mewn cadwynau pridd,
Hyd y dydd appwyntiwyd iddo
Ollwng y rhai hyn yn rhydd;
At ei phuro o bob llygredd,
Oedd yn flinder mwya'i hoes,
Am fod e' i'r sancteiddrwydd dwyfol,
Awr a munud fyth yn groes.

27 Hi ddaw fynu yn y boreu,
Megis haulwen fawr y nef,
Gyd â miloedd myrdd o feintiau
Perffaith i'w gyfarfod ef;

Ac ni chollir y grain lleia',
Ond fe fynnir oll ynghyd,
O'i mân lwch hi, pe bai'n gorwedd
Obry yn eithafoedd byd.

28 Mae ger bron yr orfedd ddifglair,
'Nawr yn nheml Duw a'r Oen,
Heb na chyftudd na themtafiwn,
Galar, gofid, gwae, na phoen ;
Ac yn drachdio o ffynnon bywyd,
Cariad o berffeithiaf ryw,
Ag fy'n llifo maes, heb orphen,
O anfeidrol gariad Duw.

29 Nid oes arni ofn pechu,
Fel y dyddiau hen o'r blaen,
Fe ddiwreiddwyd o'i thymherau
'N hollol y daearol dân ;
Elfen nefol fel rhyw ddiluw,
Sy'n ei llanw hi oll o'r bron,
Ag na's profodd neb gyffelyb
Etto ar y ddaear hon.

30 Y mae heddyw yn gwel'd yn eglur,
I ofynion nefoedd fry
Gael eu talu gan ei Hargiwydd,
Wrth ddiodde' ar *Galfari* ;
Ac i'r gyfraith gael boddlondeb
Uwch ei gofyn eitha' radd,
Am i Ddyn, a'r Duwdod ynddo,
Ar *Galfaria* gael ei ladd.

31 Gwel'd ei heddychu mae â'r Duwdod,
Flwyddau hirion cyn cael bod,
Am i'r Iefu dalu'r dyled,
Mewn un dydd, oedd arni erioed ;
A myn'd tan y cofp ei hunan, *Rhuf.* v. 10.
Symmud ei heuogrwydd drud, *Zec.* iii. 10.
Ymhen pedair mil o flwyddau
Ar ol iddo greu y byd.

T E R F Y N.